

Enw: Bedwyr Rees

Dyddiad Geni: 14 Ebrill 1977

Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?

Moelfre, Ynys Môn

Ble cawsoch chi eich addysg?

Ysgol Gynradd Moelfre; Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch; Prifysgol Aberystwyth.

Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?

Hoffi: yr hwyl. Bod pawb yn tyfu i fyny efo'i gilydd ac yn rhannu llwyth o brofiadau difyr. Casáu: erbyn cyrraedd y 6ed Dosbarth roeddwn i wedi dechrau cael llond bol. Roeddwn i eisiau mwy o ryddid.

Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?

Capten llong ar un adeg.

Beth oedd eich hoff lyfr pan oeddech yn blentyn?

Dirgelwch yr Ogorf, T. Llew Jones, a phob un o lyfrau'r Famous Five gan Enid Blyton, er eu bod nhw'n hynod o hen ffasiwn o edrych arnynt rŵan.

Beth yw eich prif ddiddordebau?

Pysgota a chwarae pêl-droed.

Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?

Clywed plant yn siarad Cymraeg â'i gilydd.

Beth sy'n eich gwylltio chi?

Diffyg goddefgarwch.

Pryd ddechreusoch chi feddwl am ysgrifennu?

Rydw i wedi mwynhau ysgrifennu straeon er pan oeddwn i'n hogyn bach. Athro yn yr ysgol gynradd o'r enw Gareth Parry wnaeth wneud i mi feddwl yn fwy manwl am y peth.

Pa un oedd eich llyfr cyntaf?

Jibar.

Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd i ysgrifennu?

Ydw, ar y cyfan, ond mae yna adegau pan does gen i ddim amynedd o gwbl ac mae pethau'n araf. Y rheswm am hynny gan amlaf ydi bod y stori'n wan neu mod i heb feddwl y peth drwyddo'n ddigon manwl. Bryd hynny mae gofyn gadael y gwaith am sbel cyn dod yn ôl i feddwl beth sy'n bod arno.

O ble rydych chi'n cael eich syniadau?

Mae syniadau'n gallu dod o bob man. O rywbeth mae rhywun yn ei ddweud, o rywbeth rydych chi'n ei weld ar y teledu, allan o bapurau newydd, llyfrau, cerddoriaeth, pethau'r ydych chi'n eu gweld bob dydd.

Oes ganddoch chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?

Darllen. Dylia rhywun geisio darllen pob mathau o bethau gan nifer o wahanol awduron. Hefyd, mi ddyliech chi fynd ati i ysgrifennu bob dydd. Ysgrifennu pethau trawiadol mae pobol yn ei ddweud wrthydych chi, pethau sy'n dod i'ch meddwl. Cofnodi bob dim. Weithiau jest eistedd i lawr a sgwennu unrhyw rwtsh sy'n dod i'ch pen – ella y daw rhywbeth ohono!

Oes rhai o'ch cymeriadau wedi eu seilio arnoch chi?

Mae'n debyg bod elfennau ohonof i ym mhob un ohonynt nhw.

Pa un o'ch llyfrau chi yw eich ffefryn?

Jibar. Mae ynddo stori well na *Sbinia* yn fy marn i. Mae rhan ohonaf yn difaru sgwennu *Sbinia* fel y gwnes i.

Pa un yw eich hoff gymeriad?

Gari o'r nofel *Sbinia*. Rydw i'n ffrindiau efo nifer o bobol tebyg iddo fo!

Oes unrhyw beth yr hoffech chi ei newid amdanoch eich hunan?

Nifer fawr iawn o bethau. Yn bennaf, mi hoffwn petawn i ddim yn poeni am bob dim.

Pa raglenni teledu yw eich ffefrynnau?

Dim byd yn arbennig. Dwi'n dueddol o newid sianel yn ddiarmacan drwy'r nos.


Beth yw eich hoff fwyd?

Chips, sosej, bîns a bara menyngwyn.

Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?

Golwr yn gwneud camgymeriad, Ricky Gervais, a chwarae'n wirion yn gyffredinol.

Bedwyr
Rees



Rydw i wastad wedi dotio at straeon –
eu clywed nhw a'u dweud nhw.
Mae Moelfre, fy mhentref genedigol,
yn socian o straeon difyr ac fe gefais fy
magu â'r holl hanesion anhygoel yma'n
cael eu hadrodd o'm cwmpas. Mae rhai
aelodau o'r teulu, yn enwedig Yncl Dêfs,
yn meddu ar ddawn cyfarwydd!

Roedd Mam byth a beunydd yn sgwennu
rhyw gân actol neu ddrama ar gyfer
disgyblion yr ysgol ac ro'n i'n cael mynd
efo hi wedyn i'w gweld nhw'n cael eu
perfformio ar lwyfannau eisteddfod ac ati.
Roedd Nain hefyd yn sgwennu'n
feunyddiol, a gan mod i wedi cael fy
magu cryn dipyn ganddi peth naturiol
oedd i mi wneud yr un peth.

Mae'r stori gyntaf i mi ei sgwennu erioed,
'Yr Wylan Wen', gen i o hyd. Mae hi'n
sôn am wylan gloff sy'n rhy wan i allu
hela ei bwyd ei hun felly mae'n rhaid iddi
gael gofal gan blant y pentref. Pobol cig
a gwaed oedd yn byw yn Moelfre yn
ystod fy mhlentynodod yw cymeriadau'r
stori. Mae hi'n adlewyrchu'r hyn oedd fy
myd i'n chwe mlwydd oed. Mae hi'n
dangos hefyd sut allwch chi greu stori o'ch

bywyd bob dydd. Does dim rhaid i chi
deithio'r byd i ffeindio straeon – maen
nhw o'ch cwmpas chi'n bob man, dim ond
i chi sylwi arnyn nhw.

Mae sgwennu yn rhoi rhwydd hynt i chi
fynd i unrhyw le yn y byd a thu hwnt gan
wneud unrhyw beth y mynnwch ar ôl
cyrraedd yno. Does yna ddim i gyfyngu
arnoch chi, dim ond eich dychymyg eich
hun, ac mae dychymyg pawb – o roi
rhwydd hynt iddo – yn ddi-ben-draw.

Edrychwch o'ch cwmpas, sylwch ar yr hyn
sy'n digwydd yn eich byd, ystyriwch sut
rydych chi'n teimlo am y pethau hyn, yna
ewch ati i arllwys y cwbl lot ar bapur.

Does dim rhyddid tebyg i'w gael!

Llyfrau

Cyfes Pen Dafad:

Sbinia 0862437156 **£2.95**

Jibar 0862436915 **£2.95**

